Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maes y Coed

**Heol Hendre**
**Bryn-coch**
**Castell-nedd**
**SA10 7TY**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Maes Y Coed

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Maes Y Coed |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig a gynhelir |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 117 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 96 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 46.8%) | 49.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 100.0%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2009 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/11/2023 |

Mae Ysgol Maes y Coed yn ysgol arbennig awdurdod lleol, a gynhelir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed.

Agorwyd yr ysgol yn 2007 ac estynnwyd ei hystod oedran i gynnwys disgyblion o oedran ysgol uwchradd yn 2012.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth loeren hefyd sydd wedi'i lleoli ar gampws Coleg Afan o'r enw 'Tŷ Margam,' sy'n darparu ar gyfer 7 disgybl yn y sector ôl-16.

Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau dysgu difrifol a chyflyrau'r sbectrwm awtistig. Mae gan lawer ohonynt anawsterau cyfathrebu, ymddygiadol neu synhwyraidd cysylltiedig, ac mae gan nifer sylweddol ohonynt ofynion penodol o ran gofal iechyd.

Mae'r ysgol yn darparu ardaloedd arbenigol fel pwll hydrotherapi ac ystafell a gerddi synhwyraidd.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Maes y Coed yn gymuned hapus lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel. Mae staff yn rhoi disgyblion yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae ganddynt wybodaeth helaeth am y disgyblion ac maent yn meithrin perthnasoedd cryf wedi'u hategu gan ofal a pharch.

Mae addysgu yn gryfder nodedig yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu ystod o fedrau pwysig sy'n cefnogi eu dysgu a'u lles yn effeithiol.

Mae staff yn gwreiddio ystod o strategaethau cyfathrebu yn gyson ar draws yr ysgol i ddiwallu ystod eang o anghenion disgyblion. O ganlyniad, caiff anghenion cyfathrebu disgyblion eu diwallu'n dda, a gallant rannu eu meddyliau a'u teimladau yn ogystal ag ymgysylltu â'u dysgu.

Mae'r cwricwlwm yn yr ysgol yn eang a chytbwys, gyda rhesymeg glir, sy'n cynnig ystod o brofiadau buddiol i ddisgyblion. Mae staff yn gweithio'n fedrus gyda'i gilydd i gynllunio cwricwlwm sy'n cyd-fynd ag anghenion dysgu disgyblion unigol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad medrau creadigol disgyblion yn gryfder nodedig.

Mae gan yr ysgol arferion gweithio amlddisgyblaethol hynod lwyddiannus. Mae pobl broffesiynol yn cydweithio'n effeithiol i gynorthwyo disgyblion i oresgyn heriau unigol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o dda, sy'n cyfeirio'r ysgol yn llwyddiannus ac yn systematig ar ei thaith wella, gan greu ymdeimlad cryf o gymuned ac ymdrech gan bawb. O ganlyniad, mae staff a disgyblion yn ffynnu, gan ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn. Caiff y pennaeth ei chynorthwyo'n fedrus gan uwch dimau arweinyddiaeth a thimau arweinyddiaeth ganol. Gyda'i gilydd, maent wedi sicrhau a gwreiddio'r weledigaeth, sef; 'dysgu gyda'n gilydd, tyfu gyda'n gilydd a gwneud gwahaniaeth' ('learning together, growing together and making a difference'). Maent yn creu amgylcheddau o ansawdd uchel, sy'n cryfhau ethos yr ysgol ymhellach, ac yn cefnogi ac yn dathlu dysgu a chyflawniadau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r defnydd o gysylltiadau â'r gymuned a lleoliadau eraill i ymestyn dysgu ar gyfer disgyblion hŷn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ganlyniad i'r cymorth a'r anogaeth eithriadol o werthfawr a gânt gan staff. O ran eu mannau cychwyn unigol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn bodloni eu targedau personol ac yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gyflawni eu potensial. Maent yn datblygu ystod o fedrau pwysig sy'n cefnogi eu dysgu a'u lles yn effeithiol. Mae'r medrau hyn yn eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer y camau nesaf yn eu bywydau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn datblygu ac yn gwella'u medrau cyfathrebu. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar esboniadau a chyfarwyddiadau eu hathrawon a'u staff cymorth. Gyda chymorth effeithiol gan staff, maent yn ymateb trwy ddefnyddio systemau cyfathrebu sy'n briodol iddyn nhw, yn cynnwys arwyddion a symbolau. Mae disgyblion yn defnyddio gwrthrychau cyfeirio a thechnoleg gynorthwyol yn bwrpasol i wneud dewisiadau a chyfleu eu hanghenion yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion sy'n defnyddio arwyddion i gefnogi eu cyfathrebu yn gwneud hynny'n hyderus. Er enghraifft, maent yn mwynhau defnyddio arwyddion wrth ddilyn caneuon Nadolig. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd effeithiol a'r hyder i ddefnyddio'r rhain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa sy'n berthnasol i bwnc yn dda wrth drafod y rhesymau dros lygredd mewn cefnforoedd a gallant fynegi eu syniadau ar gyfer cadw'r moroedd yn ddiogel ar gyfer crwbanod y môr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac yn gwella'u medrau darllen ac ysgrifennu ar lefel sy'n briodol i'w gallu. Er enghraifft, maent yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o seiniau llafariaid trwy baru llythrennau i greu geiriau cyfarwydd. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn fedrus ac â rhugldet, ac yn mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Yn unol â'u galluoedd, mae disgyblion hŷn yn dethol gwybodaeth ddefnyddiol o amrywiaeth o destunau. Er enghraifft, maent yn darllen ac yn dilyn cyfarwyddiadau i dynnu lluniau o wahanol gerbydau. Yn ychwanegol, maent yn ateb cwestiynau sydd wedi'u seilio'n briodol ar y wybodaeth y maent wedi'i darllen. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau gwrando ar staff yn darllen storïau. Maent yn ymateb yn hyderus i gwestiynau a gweithgareddau i ddatblygu eu dealltwriaeth.

Mae disgyblion iau yn ymarfer ac yn gwella'u medrau ffurfio llythrennau a llawysgrifen yn briodol. Mae'r medrau hyn yn cynnwys medrau cyn-ysgrifennu fel creu marciau synhwyraidd a thros-ysgrifennu. Gyda chymorth sensitif gan staff, mae disgyblion yn symud ymlaen o ddefnyddio ymyriadau llaw, lle maent hefyd yn datblygu medrau echddygol manwl, i ysgrifennu'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn datblygu brawddegau estynedig am y 'Grinch' ac yn ysgrifennu cerddi syml am siocled, sy'n cynnwys ansoddeiriau effeithiol fel 'silky' a 'sweet'.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buddiol yn datblygu eu medrau rhifedd, yn enwedig mewn meysydd sy'n berthnasol i gyd-destunau bywyd go iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau adnabod rhifau sengl gan ddefnyddio ystod o ddulliau amlsynhwyraidd. Dros gyfnod, mae disgyblion yn gwahaniaethu rhwng

cysyniadau fel mawr a bach a thrwm ac ysgafn. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn deall siâp a gofod. Er enghraifft, maent yn defnyddio citiau adeiladu i greu siapiau dau ddimensiwn, gan gynnwys sgwariau, petryalau, a thrionglau. Lle bo'n briodol, mae disgyblion yn magu hyder i ddefnyddio arian mewn cyd-destunau bywyd go iawn fel adnabod darnau arian i brynu eitemau ym mistro'r ysgol.

Lle bo'n briodol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau byw'n yn annibynnol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd da o arferion ystafell ddosbarth sefydledig ac amserlenni gweledol i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Maent yn casglu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer eu dysgu ac yn symud yn ddiogel o gwmpas adeilad yr ysgol i fynd i'r toiled. Mae disgyblion yn caffael ac yn datblygu medrau gwerthfawr a fydd yn cynorthwyo'u hannibyniaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol, mewn meysydd fel diogelwch ar y ffyrdd a pharatoi bwyd. Er enghraifft, ym mistro'r ysgol, mae disgyblion yn cymryd archebion am fwyd gan eu cyfoedion a staff, yn paratoi byrbrydau a diodydd ac yn rheoli taliadau. Mae ychydig o ddisgyblion yn elwa ar ddarpariaeth profiad gwaith mewn meysydd sy'n cysylltu'n dda â'u diddordebau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau corfforol. Lle bo'n briodol, a gyda chymorth effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd o ddefnyddio fframiau sefyll i gerdded yn annibynnol. Maent yn gwella'u medrau echddygol manwl trwy ddefnyddio brwshys paent i greu llythrennau a siapiau, maent yn pwyso dail i dynnu'r cloroffyl allan ac yn tylino toes wrth wneud bisgedi. Mae disgyblion yn datblygu eu hyder a'u stamina mewn ystod o weithgareddau cyffrous, sy'n cynnwys creu cuddfannau o ddeunyddiau naturiol yn ardal yr ysgol goedwig, mwynhau treulio amser ar y trampolinau a'r siglenni y tu allan, a thrwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon fel nofio a ioga.

Mae medrau creadigol disgyblion yn gryfder nodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau'n dda ac yn rhoi syniadau gwreiddiol ar waith yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu lluniau hunanbortread hynod effeithiol â phensil yn ogystal â pheintiadau pwyntilio deniadol gan ddefnyddio dotiau bach i greu delweddau dychmygus. Mae disgyblion yn dilyn alawon syml yn llwyddiannus ar sgôr ac yn chwarae carolau Nadolig yn frwdfrydig ar glychau llaw lliwgar ac ar y clychau taro. Yn ystod ymweliad â theatr yn Llundain, cafodd disgyblion flas ar y cyfle i ganu ochr yn ochr â chorws Les Misérables a chymryd rhan yn frwd mewn cynhyrchiad ysgol o Pride Rock yn ddiweddar.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud defnydd addas o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae lleiafrif ohonynt yn mewngofnodi ar eu dyfeisiau yn annibynnol, yn anfon negeseuon e-bost at eu cyfoedion ac at staff, yn ymchwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau i rannu eu dysgu. Mae ychydig o ddisgyblion yn codio ceir tegan bach yn llwyddiannus ac yn eu llywio o gwmpas trac yn yr ystafell ddosbarth.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn datblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r Gymraeg. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarchion a chanmoliaeth yn Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ennill achrediad pwrpasol mewn ystod eang o feysydd i gefnogi eu cyfnod pontio i'r cam nesaf yn eu

bywydau. Mae'r cynnig amrywiol hwn yn cynnwys dyfarniadau mewn meysydd fel hyfforddiant teithio, coginio, a cherflunio.

O ganlyniad i'r cynnydd a wnânt yn yr ysgol a'r cymorth a'r arweiniad a ystyriwyd yn ofalus a ddarperir gan yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud ymlaen i golegau arbenigol neu'r coleg addysg bellach lleol pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn yr ysgol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i Ysgol Maes y Coed ac yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yno. Maent yn cyrraedd yn hapus, yn ymgynefino'n gyflym ac yn barod i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gyffrous ag ystod eang o brofiadau dysgu buddiol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar eu lles a'u hymgysylltiad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â staff a chyfoedion yn yr un modd. Mae hyn yn golygu bod awyrgylch tawel a hamddenol lle gall disgyblion ddatblygu eu dysgu yn unol â'u hanghenion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o brofiadau difyr sy'n magu eu hyder a'u lles yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn helpu cynllunio ac wedyn yn mynychu gŵyl goleuadau Nadolig yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu yn llwyddiannus yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. O ganlyniad, maent yn hyderus yn eu gallu i ymgysylltu â phobl eraill, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar sut mae disgyblion yn rhyngweithio â'u teuluoedd gartref. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau annibyniaeth trwy ystod o weithgareddau ystyrlon. Er enghraifft, maent yn brwsio'u dannedd bob dydd ar ôl cinio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar ystod helaeth o gyfleoedd i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae hyn yn gryfder nodedig. Er enghraifft, trwy'r Cyngor Ysgol, maent yn dylanwadu ar newidiadau sylweddol fel datblygu eu cynllun gwella ysgol eu hunain neu gefnogi penodiadau staff. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion hefyd yn ymgysylltu â rhaglen fentora, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hannibyniaeth a'u hunan-barch.

Yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd, mae disgyblion yn dysgu sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn elwa ar sesiynau gan yr heddlu ar sut i aros yn ddiogel wrth ddefnyddio ffonau symudol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ac yn dysgu gwneud dewisiadau iach. Er enghraifft, yn unol â'u hanghenion, mae disgyblion yn dysgu sut i daflu a dal yn gywir yn ystod sesiynau iechyd a lles, ac yn dewis gwneud bisgedi heb siwgr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu hyder a'u gwydnwch yn effeithiol trwy ystod eang o brofiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau i ddatblygu eu rhuglder wrth ddarllen ac yn hapus i ddarllen ar goedd i ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol trwy ystod gyffrous o weithgareddau dysgu. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau mewn syrffio yn llwyddiannus ac yn gweithio gyda'i gilydd wrth chwarae rygbi tag i dîm yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Yn unol â'u hanghenion, gallant ddal ati i ganolbwyntio am gyfnodau amser â ffocws. Er enghraifft, dangosant lefelau uchel o ddiddordeb ac ymgysylltiad â gweithgareddau dysgu ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth ac yn gwneud gwelliannau i'w dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwella'u cywirdeb wrth adnabod llestri a chyllyll a ffyrc. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu profiadau dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Er enghraifft, maent yn codi arian ar gyfer elusennau adnabyddus fel Plant mewn Angen trwy gwblhau ystod o weithgareddau, yn cynnwys gwerthu cacennau a golchi ceir.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Yn rhannol oherwydd anghenion gofal iechyd ac emosiynol cymhleth disgyblion, mae lefelau presenoldeb ychydig o ddisgyblion yn isel.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r cwricwlwm yn yr ysgol yn eang a chytbwys, gyda rhesymeg glir, sy'n cynnig ystod o brofiadau buddiol ar gyfer disgyblion. Mae staff wedi gweithio'n fedrus gyda'i gilydd i gynllunio cwricwlwm sy'n gweddu i anghenion dysgu disgyblion unigol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol ac mae ganddo ffocws cryf ar ddatblygiad medrau, gan gynnwys cefnogi datblygiad creadigrwydd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau. O ganlyniad, mae gweithgareddau dysgu yn ddifyr ac yn gweddu'n dda i ddiddordebau ac anghenion y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth yn yr ysgol ar gyfer datblygu'r maes dysgu a phrofiad iechyd a lles yn hynod effeithiol. Mae'r ysgol wedi gwreiddio addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) ar draws y cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau pwysig fel gwybod sut i aros yn ddiogel. Mae athrawon yn cynllunio'n fedrus ar gyfer y maes hwn o'r cwricwlwm, gan ddangos sensitifrwydd ac empathi at ddisgyblion. Estynnir yr agwedd hon ar y cwricwlwm ymhellach trwy berthnasoedd gweithio agos gydag asiantaethau allanol, er enghraifft trwy Barnardo's neu'r tîm therapi.

Mae disgyblion yn elwa ar gwricwlwm cyfoethog gyda chyfleoedd i ymestyn profiadau dysgu trwy dripiau ac ymweliadau lleol, er enghraifft ymweld â pharciau ac amgueddfeydd lleol fel y Ganolfan Eifftaidd yn Abertawe. Hefyd, mae'r ysgol wedi cyflwyno cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ymgysylltu â syniadau newydd trwy ddiwrnodau trochi. Mae'r diwrnodau ysgol gyfan hyn yn dod â disgyblion at ei gilydd ac yn ymestyn y dysgu. Er enghraifft, yn ystod 'diwrnod swigod' yn ddiweddar, dysgodd disgyblion am gysyniad newid trwy brofiadau amlsynhwyraidd.

Mae addysgu yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Ceir perthnasoedd eithriadol o gadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn gwybod ac yn deall anghenion a diddordebau disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae staff yn cynllunio'n effeithiol yn gyson i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae gweithgareddau dysgu wedi'u teilwra a'u personoli i ddiwallu anghenion y disgyblion. Er enghraifft, mewn gwers fathemateg, mae ychydig o ddisgyblion yn tros-ysgrifennu rhifau tra bod disgyblion eraill yn adnabod bondiau rhif.

Mae staff yn darparu lefel uchel o gymorth a her i ddisgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, a chynnydd da iawn, yn aml. Mae athrawon yn gosod targedau unigol sy’n berthnasol i’r disgyblion ac ar lefel her briodol, gan olrhain cynnydd yn ofalus yn erbyn y targedau hyn trwy gydol y dydd. Er enghraifft, yn yr ‘Ysgol Goedwig’, mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i adnabod a dod o hyd i lythrennau, rhifau, siapiau a lliwiau targedig.

Mae athrawon yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn llwyddiannus trwy gydol gwersi. Caiff cyfleoedd ar gyfer Cynefin, sef datblygu ymdeimlad o berthyn, eu hymgorffori trwy’r cwricwlwm. Mae gwersi’n darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu medrau mewn gweithgareddau bywyd go iawn pwrpasol, er enghraifft prynu eitemau mewn caffi neu greu carw ar gyfer wythnos fenter.

Mae amgylchedd yr ysgol yn cyfoethogi profiadau disgyblion, gydag ystod o adnoddau o ansawdd uchel sydd wedi’u trefnu’n dda ac yn gweddu’n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol y disgyblion.

Mae staff yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn dda, gan arwain at gyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso’u medrau rhifedd, meddwl, creadigol, corfforol ac annibyniaeth ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn defnyddio holi medrus, sy’n briodol i anghenion pob disgybl, gan roi amser i ddisgyblion feddwl ac ymestyn eu hatebion. Mae bron pob un o’r staff yn darparu cyfarwyddiadau clir trwy ddull cyfathrebu cynhwysol, gan gefnogi dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio byrddau cyfathrebu, gwrthrychau cyfeirio, amserlenni gweledol ac arwyddion. Mae bron pob un o’r staff yn defnyddio adborth yn dda i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Mae staff yn cywiro camgymeriadau a chamdybiaethau’n sensitif er mwyn i ddisgyblion allu gwneud cynnydd yn eu dysgu. O ganlyniad, ceir cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu a chyflawni lefelau uchel o lwyddiant.

Mae staff yn rheoli cyfnodau pontio yn gyson dda trwy arferion sefydledig, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgynefino’n gyflym ac yn barod i ddysgu. Mae hyn yn hyrwyddo amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol.

Mae cynorthwywyr addysgu yn gyfranogwyr gweithredol mewn dysgu, gan ddangos gwybodaeth hynod ddatblygedig am ddisgyblion, ac yn addasu hyn yn gyflym i sicrhau ymgysylltiad a chynnydd. Er enghraifft, ar draws llawer o wersi, maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael seibiannau synhwyraidd byr cyn symud ymlaen at y dasg nesaf.

Defnyddir gwybodaeth asesu yn effeithiol gan staff i gynllunio tasgau sy’n briodol o heriol, sy’n datblygu medrau’r rhan fwyaf o ddisgyblion ymhellach ac yn myfyrio ar y camau bach nesaf mewn cynnydd. Mae’r dull hwn yn galluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu ar draws yr ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Maes y Coed yn gymuned hapus lle mae disgyblion yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u bod yn ddiogel. Mae staff yn rhoi disgyblion yn ganolog i

bopeth a wnânt. Mae ganddynt wybodaeth helaeth am ddisgyblion ac maent yn meithrin perthnasoedd cryf wedi'u hategu gan ofal a pharch.

Mae gan yr ysgol ddull cyfathrebu cynhwysol hynod effeithiol. Mae staff yn gwreiddio ystod o strategaethau cyfathrebu yn gyson ar draws yr ysgol i ddiwallu'r ystod eang o anghenion disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys byrddau cyfathrebu, arwyddion a thechnoleg gynorthwyol. O ganlyniad, caiff anghenion cyfathrebu disgyblion eu diwallu'n dda ac maent yn rhannu eu meddyliau a'u teimladau, yn ogystal ag ymgysylltu â'u dysgu.

Mae gan yr ysgol arferion gweithio amlddisgyblaethol hynod lwyddiannus. Mae pobl broffesiynol yn cydweithio'n effeithiol i gynorthwyo disgyblion i oresgyn heriau unigol, er enghraifft defnyddio mewnbwn o therapi galwedigaethol i ddiwallu anghenion synhwyraidd trwy gydol y diwrnod ysgol. Mae gan staff gysylltiadau cryf â'r tîm therapiwtig a meddygol i gefnogi lles a chynnydd disgyblion yn fedrus. Er enghraifft, mae athrawon yn cydweithio â ffisiotherapyddion i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol.

Mae ymagwedd yr ysgol at les a gofal iechyd yn sensitif, yn ofalgar ac yn unigoledig. Hefyd, mae'r ystod o apwyntiadau a ddarperir o fewn y diwrnod ysgol yn gwella goddefgarwch disgyblion o'r gweithgareddau newydd hyn, yn ogystal â'u presenoldeb, er enghraifft triniwr gwallt, deintydd neu glinig epilepsi'r ysgol. Mae arweinwyr yn rhoi ystod o strategaethau gwerthfawr ar waith i dargedu presenoldeb isel, gan gynnwys cysylltiadau â'r swyddog lles addysg, gweithwyr cymdeithasol, a'r awdurdod lleol. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn cynnig cymorth clir ac yn cyfathrebu â rhieni'n rheolaidd am eu disgwyliadau. Fodd bynnag, yn rhannol oherwydd eu hanghenion meddygol ac emosiynol cymhleth, mae lefelau presenoldeb ychydig o ddisgyblion yn isel.

Mae gan yr ysgol ymagwedd glir a chadarnhaol at gefnogi ymddygiad disgyblion. Mae staff ymddygiad yn olrhain a dadansoddi tueddiadau'n ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau ystyrlon, er enghraifft addysgu disgyblion am y medrau neu'r strategaethau sydd eu hangen i ddisodli'r ymddygiad. Caiff gwaith yr ysgol yn y maes hwn ei ategu'n glir gan set gref o werthoedd. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi bywydau disgyblion gydag ystod o weithgareddau allgyrsiol cyffrous. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau'r cyfle i ddathlu ym mhrom yr ysgol yn ystod eu blwyddyn olaf. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar ymweliadau preswyl, galâu nofio a chystadlaethau chwaraeon. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n hyderus â chymuned yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau eraill mewn ffordd ystyrlon sy'n cysylltu dathliadau a'u bywydau eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion yn dathlu Diwali, yn dysgu am bwysigrwydd y dathliad hwn, ac yn blasu bwydydd newydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llais y disgybl yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu clywed ac yn gallu gwneud newidiadau i'w hysgol. Mae hyn yn gryfder sefydledig a sylweddol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod ystyrlon o ffyrdd i ddisgyblion effeithio ar arfer, er enghraifft trwy'r Cyngor Ysgol neu holiaduron

rheolaidd. Hefyd, mae'r ysgol yn ymgorffori llais y disgybl ar draws pob agwedd ar ei gwaith, er enghraifft gofyn i ddisgyblion bleidleisio dros ba ffilm yr hoffent ei gwylio yn noson ffilm nesaf yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus i baratoi disgyblion ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau. Er enghraifft, yn Nhŷ Margam, ceir ystod o adnoddau sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn dda. Mae disgyblion yn ymarfer gwneud gwely, smwddio dillad, a pharatoi prydau bwyd sylfaenol. Ar draws yr ysgol, llai datblygedig yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau ar gyfer eu bywyd yn y gymuned yn y dyfodol.

Mae arweinwyr yn darparu cymorth medrus i ddisgyblion a'u teuluoedd wrth iddynt bontio i mewn ac allan o'r ysgol. Mae staff yn sicrhau bod gwybodaeth bwysig yn cael ei rhannu â lleoliadau newydd, yn cynorthwyo disgyblion i ymweld â lleoliadau newydd ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â thîm newydd. Hefyd, mae staff yn cynnig hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer y lleoliadau newydd hyn i sicrhau cymorth cyson ar gyfer disgyblion wrth iddynt adael yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu sut i aros yn ddiogel ac yn iach yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn eu hannog i flasu bwydydd newydd, mwynhau ystod o weithgareddau corfforol, fel Tai Chi, a dysgu sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae staff yn rheoli risg yn ofalus ac mae ganddynt ymagwedd gadarnhaol at sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried yn dda ac nad yw'n atal profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cynllunio gweithgareddau uchelgeisiol fel tripiau i Langrannog, neu'n dysgu sut i ddefnyddio dril yn ddiogel mewn gwersi menter.

Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae staff yn deall pwysigrwydd eu rôl mewn cadw disgyblion yn ddiogel. Mae staff yn elwa ar ystod o hyfforddiant pwysig yn y maes hwn. Mae arweinwyr yn olrhain pryderon yn ofalus, yn ymateb yn briodol ac yn cyfathrebu ag asiantaethau allanol yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o dda, sy'n cyfeirio'r ysgol yn llwyddiannus ac yn systematig ar ei thaith i wella, gan greu ymdeimlad cryf o gymuned ac ymdrech gan bawb. Trwy ei harweinyddiaeth dosturiol ac empathig, mae hi'n dathlu'r amodau diwylliannol lle mae staff a disgyblion yn ffynnu, gan ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn.

Mae'r pennaeth yn cyfleu disgwyliadau ac uchelgais glir, sy'n arwain at welliant sylweddol mewn sicrhau'r ddarpariaeth, y lles a'r dysgu i ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ers yr arolygiad diwethaf i sicrhau ymagwedd gyfannol at gyflwyno ystod drawiadol o gymorth therapiwtig a meddygol helaeth i ddisgyblion, a gyflwynir yn yr ysgol. Mae hyn yn gryfder nodedig.

Caiff y pennaeth ei chynorthwyo'n fedrus gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r tîm arweinyddiaeth ganol, a gyda'i gilydd, maent wedi sicrhau a gwreiddio'r weledigaeth, sef 'dysgu gyda'n gilydd, tyfu gyda'n gilydd a gwneud gwahaniaeth'. Maent yn creu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n cryfhau ethos yr ysgol ymhellach ac yn dathlu dysgu a chyflawniadau disgyblion.

Mae arweinwyr yn annog, yn cynorthwyo ac yn datblygu staff yn fedrus ar bob lefel a cheir ystod dda iawn o ddysgu proffesiynol, sy'n cefnogi'r ysgol yn dda wrth yrru gwelliannau. Mae enghreifftiau da yn cynnwys y gwelliannau i addysgu a chynllunio, a chysondeb y cymorth i ddisgyblion reoli eu hemosiynau.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd da i staff ymweld ag ysgolion eraill a cheir llawer o enghreifftiau arwyddocaol o sut maent yn rhannu eu harfer effeithiol ar draws y sector. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu canolfan asesu'r blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion iau ag awtistiaeth. Mae arweinwyr yn darparu ystod o allgymorth a hyfforddiant ar gyfer ysgolion eraill, er enghraifft ar wella strategaethau ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu disgyblion a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae gwaith arweinwyr wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol. Mae cynllunio'r ysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n dda ac mae'r ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu medrau disgyblion yn cael effaith sylweddol. Mae ffocws arweinwyr ar fedrau ac agweddau disgyblion wedi arwain at ddarpariaeth gref mewn datblygu medrau cyfathrebu a medrau creadigol disgyblion. Ceir ffocws dygn ar ddatblygu medrau disgyblion mewn cyd-destunau bywyd go iawn ac ar wella agweddau disgyblion at ddysgu, yn enwedig eu hannibyniaeth a'u gwydnwch.

Ceir llinellau atebolrwydd a threfniadau rheolaeth llinell cryf, sy'n canolbwyntio'n dda ar gynorthwyo staff, a'u datblygiad. Mae trafodaethau mewn cyfarfodydd yn canolbwyntio'n dda ar les a dysgu disgyblion, yn ogystal ag agweddau ar addysgu a darpariaeth. Mae arweinwyr yn darparu cydbwysedd da rhwng cymorth a her. Mae'r ysgol wedi sicrhau bod pob aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi cael hyfforddiant mewn mentora a hyfforddi. Defnyddir y dull hwn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i gynorthwyo a datblygu staff a sicrhau tîm hynod lwyddiannus. Ymgorfforir prosesau rheoli perfformiad, ac ymdrinnir ag unrhyw danberfformio yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol galendr digwyddiadau clir a strwythuredig i ennill tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau gwersi llawn, teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr, craffu ar waith disgyblion a gofyn am farnau disgyblion a rhieni. Mae arweinwyr yn myfyrio ar effaith eu gwaith, ac yn ei werthuso, ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ansawdd mewn agweddau allweddol amrywiol, er enghraifft cymorth ar gyfer datblygu lles emosiynol disgyblion, gwella medrau disgyblion, a sicrhau dulliau therapiwtig cynhwysfawr.

Mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau cywir ar gyfer eu datblygu. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi nodi bod gwella presenoldeb ychydig o ddisgyblion yn faes i'w ddatblygu. Maent wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau sylweddol. Er enghraifft, mae athrawon yn datblygu iaith a rennir o ran cynnydd ac yn defnyddio gwybodaeth asesu'n dda i gynllunio ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sicrhau ansawdd, er enghraifft teithiau dysgu a gwerthuso data. Maent wedi nodi bod angen ymestyn y gweithgareddau hyn i gynnwys edrych yn fwy gofalus ar gynnydd disgyblion, er enghraifft. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, maent yn darparu cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her ac yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth

gref o gyllid yr ysgol. Mae gan y corff llywodraethol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn cydweithio'n dda â rhanddeiliaid. Er enghraifft, maent yn gweithio'n fedrus gydag ystod helaeth o bobl broffesiynol i ddarparu cymorth therapiwtig ac emosiynol da iawn ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr yn creu ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr gyda rhieni. Mae hyn yn gryfder sylweddol yng ngwaith yr ysgol. Maent yn darparu sesiynau gwybodaeth a gweithdai wythnosol gyda staff yr ysgol a phobl broffesiynol eraill sy'n ymweld. O ganlyniad, mae rhieni'n wybodus am gynnydd eu plentyn ac wedi'u harfogi'n well i gefnogi eu hanghenion unigol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn drylwyr i sicrhau bod yr holl wariant yn cyd-fynd yn agos â'i blaenoriaethau datblygu. Caiff cyllid grant, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi lles a chynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel. O ganlyniad, mae'r ysgol yn llwyddo i leihau effeithiau anfantais a heriau unigol ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddyheadau a deilliannau disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 1/02/2024